# Adroddiad Arolygu

**Camau Tirion Llwynhendy**

**Camau Tirion Llwynhendy**
**Heol Trallwm**
**Llanelli**
**SA14 9ET**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

12/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Camau Tirion Llwynhendy

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | First Foundations Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn gan eu bod yn cael eu parchu ac yn mwynhau ystod o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu
diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac mae'r rhan fwyaf yn rhyngweithio'n dda.

Mae gan staff gofal ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi
gweithredu polisïau a gweithdrefnau newydd mewn ymateb i COVID-19. Mae'r staff gofal yn gyfeillgar ac yn rhoi gofal diogel a meithringar. Maent yn cynllunio ar gyfer amryw o weithgareddau diddorol, sy'n hybu chwilfrydedd, chwarae a dysgu plant. Mae rhyngweithiadau yn gyson ac yn foddhaol. Mae staff gofal yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn deg ac mewn ffordd mae plant yn ei deall.

Mae'r amgylchedd yn darparu gofod diogel ar gyfer y plant i chwarae a dysgu. Gellir cael mynediad at yr amgylchedd yn yr awyr agored drwy ddrws diogel ac mae yna gynlluniau yn yr arfaeth ar hyn o bryd i ddatblygu'r ardal i wella profiadau chwarae plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Mae asesiadau risg ar waith.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad hwn yn ddigonol. Mae'r gwasanaeth wedi'i staffio'n addas ac mae'r rhan fwyaf o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau ar waith ac maent wedi diweddaru nifer fach o bolisïau yn ystod yr arolygiad. Roedd rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal mae eu plant yn ei gael yn fawr.

## Llesiant

Mae plant yn hapus yn y gwasanaeth ac maent yn parchu ei gilydd. Tra'n cyflwyno eu hunain gan ddefnyddio'r rhaff cyfeillgarwch, roedd plant yn wên i gyd ac yn gwrando'n astud wrth i'w ffrindiau gyflwyno eu hunain. Mae plant yn fywiog ac mae'r rhan fwyaf yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, yn ystod amser cylch roedd plant ieuengach yn dilyn y canu yn frwdfrydig. Mae plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyfforddus yn ystod eu diwrnod yn y feithrinfa. Er enghraifft, mae plant yn gallu dewis p'un a ydynt eisiau llaeth neu ddŵr i'w yfed.

Mae plant yn rhyngweithio a chydweithredu'n dda. Er enghraifft, maent yn ymolchi eu dwylo pan ddywedir wrthynt wneud, maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn cydweithredu'n dda iawn yn ystod amser cylch. Mae plant yn rhannu mewn ffordd sy'n briodol i'w cam datblygu ac maent yn cymryd eu tro ar y teganau i'w gyrru yn yr awyr agored. Mae plant ieuengach yn hapus iawn pan maent yn gallu helpu i dacluso'r cardiau canu gyda chymorth. Mae'r arfer hwn yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyflawniad i'r plant. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae plant yn gymdeithasol ac yn gofalu am ei gilydd. Maent wedi ffurfio cydberthnasau agos gyda'u ffrindiau a staff. Wrth i un plentyn adael, gwnaethant chwifio hwyl fawr i'w ffrindiau yn ddiwyd ac yn frwdfrydig. Roedd plant yn eistedd yn gyfforddus ar lin staff gofal yn ystod sesiynau canu. Er enghraifft, mae plant yn setlo'n dda ar gyfer amser cylch, gan ymuno yn fywiog â chaneuon Cymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan yn y sesiynau canu. Mae barn a diddordebau'r plant yn cael eu hystyried. Er enghraifft, mae plant ifanc yn gallu cymryd rhan a dewis eu cân drwy ddewis cerdyn gyda darlun o'r gân arno, megis llun o Jac y Do ar gyfer y gân "Mi Welais Jac y Do". Dewisodd un plentyn ddoli o'r blwch, am ei bod eisiau canu Miss Polly Dolly.

Mae gan y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth oherwydd gallant ymgymryd â thasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae rhai plant hŷn yn gallu gwisgo’u cotiau eu hunain yn annibynnol ac maent yn bwyta'n annibynnol. Mae plant yn canolbwyntio'n dda yn ystod sesiynau dan arweiniad oedolion wrth iddynt drefnu a chymharu, cyferbynnu a datrys problemau. Er enghraifft, trefnodd plant hŷn eirth mewn trefn lliwiau wrth iddynt eu cyfrif i fyny i chwech. Mae plant hefyd yn mwynhau nodi llythyren yr wythnos ac maent yn gallu ffurfio rhai llythrennau mewn swigod gan ddefnyddio brwshys paent.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan staff gofal ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae gan staff hyfforddiant amddiffyn plant cyfredol ac maent yn deall polisi'r feithrinfa. Gallant drafod senarios amddiffyn plant a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn yn hyderus pe byddent yn bryderus am blentyn. Mae gan staff gofal hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol ac maent yn glynu at bolisïau iechyd a diogelwch y feithrinfa. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn effeithiol. Mae bwydlen ar gael ac mae staff gofal yn darparu byrbrydau a phrydau maethlon, gan gynnwys ffrwythau a llysiau. Dywedodd rhieni wrthym fod staff gofal yn eu hysbysu ar ddiwedd y dydd o ba fwyd mae eu plant wedi'i fwyta. Mae staff gofal yn gweithredu arferion hylendid da. Maent yn ymolchi eu dwylo yn rheolaidd, yn defnyddio menig a ffedogau i weini bwyd ac yn dilyn arferion glanhau effeithiol megis taro lliain ar y byrddau rhwng gweithgareddau. Maent yn gweithredu gweithdrefnau da ar gyfer newid cewynnau, sy'n lleihau'r risg o groes-heintio.

Mae staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o dechnegau gwahanol i helpu i reoli ymddygiad amrywiol ac ystod oedran y plant sy'n mynychu. Mae staff gofal yn cynorthwyo plant i reoli eu hymddygiad eu hunain ac yn hybu hunan-barch plant wrth iddynt roi llawer o ganmoliaeth iddynt. Maent hefyd yn ymgysylltu â phlant i dawelu sefyllfaoedd cyn iddynt gael amser i ddatblygu.

Mae staff gofal yn rhyngweithio â phlant mewn modd caredig, amyneddgar a gofalgar. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a dealltwriaeth. Mae staff gofal yn sgwrsio'n naturiol â phlant i gynorthwyo eu chwarae a dysgu ac maent yn gwerthfawrogi cyfraniadau plant. Mae staff gofal yn ymatebol yn gyson, maent yn gwrando ac yn parchu barn plant. Maent yn annog plant i ddweud 'diolch' yn unrhyw un o'r ddwy iaith. Fodd bynnag, mae yna rai cyfleoedd wedi'u colli i ddatblygu meddwl y plant drwy ryngweithiadau dyfnach a mwy ystyrlon. Er enghraifft, yn ystod sesiwn lliwio, gofynnodd staff wrth blentyn p'un a hoffai liw arall a gwnaeth basio'r blwch creonau iddynt. Ni wnaeth yr ymateb geisio ennyn sgwrs bellach â'r plentyn.

Mae'r staff gofal yn gefnogol iawn o blant. Maent yn cydweithio'n dda i nodi anghenion emosiynol, ymddygiadol ac iaith a lleferydd plant ac yn cymryd camau priodol. Er enghraifft, mae ambell aelod o staff wedi cael hyfforddiant iaith a lleferydd ac yn defnyddio eu dealltwriaeth i gynorthwyo plant unigol. Mae staff gofal hefyd wedi cyflwyno iaith arwyddion i'r canu ac yn gwella profiadau plant yn ystod sesiynau canu. Yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a dewisiadau unigol plant, mae staff gofal yn cynllunio gweithgareddau ac yn cofnodi arsylwadau o ddatblygiad plant. Maent yn defnyddio eu hasesiadau i hyrwyddo arferion yn y dyfodol ac i gynllunio gweithgareddau dan arweiniad staff. Mae'r cynllunio hefyd yn darparu cyfleoedd i'r plant archwilio amrywiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae plant yn gallu blasu gwahanol fwydydd fel rhan o'u

dathliadau ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieinïaidd ac ymgysylltu â gweithgareddau celf a chrefft i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n darparu man diogel a chyfforddus ar gyfer plant i ymlacio, chwarae a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal ar offer megis yr offer cludadwy a'r boeler. Maent yn cadw cofnodion cywir fel tystiolaeth o'r gwiriadau. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ar waith ac maent yn cymryd camau i'w lleddfu neu eu dileu. Fodd bynnag, nid yw rhai gweithgareddau megis teithiau i'r ysgol wedi cael asesiad risg llawn. Mae staff gofal yn cwblhau gwiriadau risg dyddiol. Mae bron pob aelod o staff gofal yn deall y gwahaniaeth rhwng risg derbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant maent yn gweithio gyda nhw, er roedd ceblau ffôn a theledu yn hongian yn isel ar uchder taldra'r plant yn ystod yr arolygiad.  Mae staff gofal yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac maent yn cadw cofnodion o'r ymarferion, gan roi tystiolaeth fod plant a staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau gwacáu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall plant gael mynediad at amrywiaeth addas o ddodrefn, teganau ac offer priodol o ran oedran dan do ac yn yr awyr agored, sy'n cadw diddordeb y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn briodol fel ei fod yn darparu ystod foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran y gofelir amdanynt. Mae plant yn gyffredinol yn cael mynediad at ardaloedd o fewn yr ystafelloedd sylfaenol yn annibynnol ac maent yn mwynhau chwarae gyda gweithgareddau a osodir gan staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Maent yn ymestyn dealltwriaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod sylfaenol o adnoddau sy’n briodol o ran oedran. Cawsom ein hysbysu gan yr unigolyn cyfrifol bod cynlluniau yn yr arfaeth i ddatblygu'r ardal yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod chwarae digonol o dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi llawer ohonynt i gyrraedd eu potensial. Mae yna adnoddau addas megis teganau plant bach, darpariaethau parhaus, eitemau papur a chrefftau.

Yn ystod yr arolygiad, trefnodd y staff gofal yr amgylchedd yn briodol fel ei fod yn darparu ystod foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran y gofelir amdanynt. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn defnyddio'r estyniad ar gyfer cysgu yn bennaf ac ar gyfer y clwb ar ôl ysgol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus ac yn brofiadol ym maes arferion gofal plant. Mae gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben ar waith ac fe'i ddiweddarwyd gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystod yr arolygiad, er mwyn cynnwys gwybodaeth ynghylch y strwythur rheoli presennol. Mae bellach yn glir ac yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diweddaru'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau. Maent wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â chanllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 ac maent wedi llunio polisi newydd. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant ddiweddaru rhai polisïau megis y polisïau amddiffyn plant a disgyblu staff ynghyd â'r cynllun gweithredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu AGC o ddigwyddiadau sylweddol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant hysbysu AGC o'r newidiadau mwyaf diweddar i staff ac achosion o glefydau heintus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflogi staff gofal sydd â'r cymwysterau priodol i ofalu am blant. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion presenoldeb yn gywir yn bennaf, gyda staff yn mewngofnodi ac allgofnodi ym mhob achos bron. Fodd bynnag, nid yw'r gofrestr bob amser yn adlewyrchu'n gywir pwy sy'n gofalu am ba blant neu bwy sy'n gadael yr adeilad i gynnal teithiau i'r ysgol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd yna unigolyn ychwanegol yn bresennol wrth i ni gyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau bod ganddynt bellach gynlluniau ar waith i sicrhau bod unigolyn ychwanegol yn bresennol bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwiriadau addasrwydd i sicrhau bod pob aelod o staff yn addas i weithio gyda phlant. Fodd bynnag, ni wnaethant adnewyddu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un aelod o staff mewn modd amserol. Gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth nodi hyn a gwnaethant gymryd camau ar unwaith. Mae'r gwasanaeth wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod y broses wedi'i chwblhau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ar arfarnu unigol gyda staff gofal, gan roi amser iddynt adlewyrchu ar eu cryfderau a thrafod unrhyw anghenion hyfforddi. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cofnodi pob cyfarfod goruchwylio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan staff hyfforddiant cyfredol mewn cymorth cyntaf, amddiffyn plant a hylendid bwyd ac yn sicrhau bod staff yn adnewyddu eu cymwysterau pan ddaw hyfforddiant ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae yna systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir: mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ceisio adborth ysgrifenedig gan rieni ac yn gofyn i staff a phlant am eu barn. Maent yn cynllunio ar gyfer gwelliannau megis datblygu’r ardal yn yr awyr agored i wella dysgu'r plant. Fodd

bynnag, er bod adroddiad blynyddol ar gael ar ansawdd y gofal, nid yw'r adroddiad ei hun yn adolygu hunan-fyfyrdod y flwyddyn bresennol yn eglur mewn modd ystyrlon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ailedrych ar yr adroddiad ansawdd gofal yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfathrebu'n dda gyda rhieni, sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd maent yn ei roi ar bartneriaethau. Mae staff gofal yn cyfathrebu'n dda gyda rhieni yn ddyddiol, un ai ar lafar wrth iddynt gasglu eu plant neu drwy ddyddiadur dyddiol. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal mae eu plant yn ei gael yn fawr ac yn arddangos cydberthnasau da rhwng y darparwr a'r rhieni. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd bartneriaethau cryf gyda Dechrau'n Deg ac ysgolion lleol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Datblygu rhyngweithiadau staff gyda phlant ymhellach i gael effaith fwy ar feddwl plant.

A2. Datblygu'r asesiadau risg ymhellach.

A3. Sicrhau bod y prosesau arwain yn hollol gadarn fel bod y tasgau perthnasol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

A4. Sicrhau bod yna unigolyn ychwanegol yn bresennol bob amser.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Nid yw staff yn allgofnodi bob amser. Ni chynhwysir teithiau i'r ysgol ar y gofrestr. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn nodi pa staff sy'n edrych ar ôl pa blant. | Newydd |
| 31 | Ni hysbyswyd AGC ynghylch digwyddiad sylweddol | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 11/01/2022